Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 29 Mawrth 2012**

Amser:
**09:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Policy: Marc Wyn Jones**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8120 / 029 2089 8120
pwyllgor.CCLll@wales.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod (09.15 - 09.30)**

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 8)

Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
June Milligan, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Owain Lloyd, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### 3. Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (10.30 - 11.30) (Tudalennau 9 - 14)

Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
John Howells, Cyfarwyddwr Tai, Adfywio a Threftadaeth
Kath Palmer, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Dai

### 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

### 5. Ystyried y Materion Allweddol ynghylch y Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) (11.30 - 12.00)

(Tudalennau 15 - 30)

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

1. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu fy mhrif flaenoriaethau ar gyfer Tymor y Cynulliad hwn. Maent yn cynnwys gwella gwasanaethau cyhoeddus, cefnogi pobl, creu cymunedau mwy diogel a mynd i'r afael â thlodi. Rwy'n falch fod nifer o'r blaenoriaethau a nodwyd gennym eisoes wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Byddwn yn parhau i weithio'n galed i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud ar holl ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu.

2. Gan ddilyn trefn y Rhaglen Lywodraethu, mae'r papur hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn rhai o brif feysydd y portffolio Llywodraeth Leol a Chymunedau, ar wahân i bolisi trafnidiaeth.

## GWASANAETHAU CYHOEDDUS YNG NGHYMRU

| ***CRYFHAU DEMOCRATIAETH LEOL*** |
|---|
| *Etholiadau Llywodraeth Leol* |
| Bydd etholiadau lleol i gynghorau sir a chymuned yn cael eu cynnal ar ddydd Iau 3 Mai ym mhobman ar wahân i Ynys Môn, a fydd yn eu cynnal flwyddyn yn ddiweddarach. Mae ymgynghoriad wedi cychwyn ar ddyddiad yr etholiadau dilynol, sydd i fod i gael eu cynnal ar yr un diwrnod ag etholiadau'r Cynulliad yn 2016, gyda golwg ar eu gohirio tan 2017. |
| *Y Bil arfaethedig ynghylch Democratiaeth ac Etholiadau Llywodraeth Leol* |
| Roedd y Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys ymrwymiad i gyflwyno Bil Democratiaeth ac Etholiadau. Efallai y bydd teitl y Bil yn newid rhyw ychydig i adlewyrchu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r gwaith wedi cychwyn o ddatblygu polisi ar gyfer y Bil hwn a bwriedir cyhoeddi Papur Gwyn yn y Gwanwyn. Bwriedir cyflwyno'r Bil erbyn diwedd 2012. |
| *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011* |
| Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal tan 30 Mawrth ar ganllawiau o dan y Mesur. Mae'r canllawiau'n ymdrin ag amseru cyfarfodydd cyngor, hyfforddi a datblygu cynghorwyr, y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cynnwys y cyhoedd mewn gweithgarwch craffu, galwadau gan gynghorydd i weithredu, cadeiryddion pwyllgorau craffu, cyfethol i bwyllgorau craffu a rhedeg pwyllgorau archwilio. |

| ***CEFNOGI GWELLIANT PARHAUS I'N GWASANAETHAU CYHOEDDUS*** |
|---|
| *Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)* |
| Roedd yn bleser gennyf gyflwyno'r Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 29 Tachwedd 2011. Dyma'r Bil cyntaf i gael ei gyflwyno ers i'r Cynulliad Cenedlaethol ennill cymhwysedd deddfwriaethol ehangach yn dilyn refferendwm y llynedd.<br><br>Mae'r Bil yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau cymhlethdod a symleiddio prosesau lle bynnag y bo'n bosibl. Bydd y Bil yn symleiddio'r broses ar gyfer gwneud, diwygio a dirymu'r rhan fwyaf o is-ddeddfau yng Nghymru drwy ddileu'r angen am gadarnhad gan Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn cyflwyno dull mwy effeithiol ac effeithlon o orfodi, drwy roi'r dewis i ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i gydgrynhoi darpariaethau cyfredol ar is-ddeddfau o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac i'w haddasu lle'r oedd yn briodol. Dyma'r cam cyntaf tuag at ddatblygu Llyfr Statud ar wahân i Gymru.<br><br>Mae'r Pwyllgor, wrth gwrs, newydd graffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1, ac edrychaf ymlaen at weld ei gasgliadau pan gyhoeddir ei adroddiad.<br><br>*Cynlluniau Integredig Sengl* |

Datblygiad pwysig arall yn ymgais Llywodraeth Cymru i leihau beichiau a chymhlethdod yw'r ymrwymiad i Gynlluniau Integredig Sengl. Mae ymgynghoriad wedi cychwyn o dan y teitl *Cydamcanu – Cydymdrechu* ar ganllawiau ar gyfer cynlluniau a phartneriaethau integredig. Mae'r ddogfen yn nodi y dylai'r bwrdd gwasanaethau lleol (BGLl) fod yn dîm arwain cydweithredol strategol ar gyfer ardal, sy'n datblygu cynllun integredig sengl sy'n canolbwyntio ar gyflawni, ac yn sicrhau bod strwythurau partneriaeth yn addas i'r diben. Nod y cynnig hwn yw cwtogi 50% ar nifer y partneriaethau.

Ymyrraeth ar Ynys Môn

Penodais bum Comisiynydd i redeg Cyngor Sir Ynys Môn ym mis Mawrth y llynedd, yn dilyn adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol a amlygodd ddiffygion difrifol yn y trefniadau llywodraethu. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o dan stiwardiaeth y Comisiynwyr. Mae ymddygiad ac ymgysylltiad yr aelodau wedi gwella'n fawr, fel yr amlygodd y trafodaethau cynhyrchiol a chydsyniol a gafwyd ynghylch y gyllideb a'r dreth gyngor heriol iawn sydd wedi'u pennu ar gyfer 2012-13. Mae nifer o systemau llywodraethu a rheoli allweddol hefyd wedi'u hailwampio'n llwyr. Mae mwy i'w wneud; yn benodol, mae angen recriwtio a phenodi uwch dîm rheoli o'r radd flaenaf. Ond mae'r Comisiynwyr yn credu bod potensial amlwg bellach i leihau'r ymyrraeth yn y tymor canolig, er mwyn ei therfynu'n llwyr maes o law. Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol gytuno â'r asesiad hwn mewn adroddiad diweddar.

### *SICRHAU BOD EIN CYLLID YN CEFNOGI DULLIAU CRYFACH A MWY EFFEITHIOL O DDARPARU GWASANAETHAU*

*Setliad Llywodraeth Leol*

O ganlyniad i'r setliad llywodraeth leol ar gyfer awdurdodau lleol dros gyfnod yr adolygiad o wariant, bydd cynnydd o 0.7% yn y cyllid o'i gymharu â gostyngiad yn Lloegr o 0.6%. Mae'r setliad yn cynnwys diogelwch o 1 y cant ar gyfer gofal cymdeithasol hyd at 2013-14, a hyd at 2014-15 ar gyfer addysg.

Mae awdurdodau lleol yn rhagweld y bydd y cynnydd yn y dreth gyngor yng Nghymru ar ei isaf ers cyflwyno'r dreth.

### *ANNOG CYDWEITHIO EFFEITHIOL RHWNG GWASANAETHAU CYHOEDDUS*

*Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus*

Mae dwy her yn wynebu Gwasanaethau Cyhoeddus – cyfyngiadau ariannol a'r ffaith fod anghenion dinasyddion yn cynyddu ac yn cymhlethu. Yn erbyn y cefndir hwn, mae diwygio'n hanfodol. Yn y gorffennol, mae newid wedi golygu 'marchnadeiddio' neu ad-drefnu. Caiff y ddau ddull gweithredu gryn effaith ar ddinasyddion a chostau. Mae cydweithio yn cynnig y potensial i sicrhau'r manteision sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu, heb y costau na'r risgiau i wasanaethau.

Yng Nghymru rydym wedi sicrhau arweiniad ar draws y gwasanaethau cyhoeddus drwy ddod â phrif weithredwyr ynghyd o wasanaethau megis awdurdodau lleol, yr Heddlu ac Iechyd yng Ngrŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus. Sicrheir arweiniad gwleidyddol drwy Gyngor Partneriaeth Cymru. Bydd yr arweiniad gweithredol a gwleidyddol hwn ledled Cymru yn rhoi cyfeiriad clir ac awdurdod i'r diwygio sydd ei angen.

Ers adolygiad Simpson, a gynhaliwyd yn 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu Compact ar gyfer Newid gyda Llywodraeth Leol, ac mae'r 22 Awdurdod wedi cytuno i gyflawni'r camau gweithredu a amlinellir yn y Compact. Mae'n dod â chydlyniaeth i'r prif adolygiadau gwasanaeth a pholisïau o dan wasanaethau cymdeithasol ac addysg, ac yn nodi meysydd eraill lle y bydd Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r cyfleoedd i weithio'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

I helpu i leihau cymhlethdod mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ôl troed syml ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus i ddangos y rhanbarthau cydweithio – mae 6 rhanbarth ac mae eu ffiniau'n cyfateb i rai'r ardaloedd iechyd. Mae cydweithio rhwng awdurdodau lleol yn bwysig am ei fod yn arwain at ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n lleihau costau ac yn sicrhau cydnerthedd. Ond cofier ei bod yn bwysig cydweithio ar draws gwasanaethau hefyd, i ddiwallu anghenion cymhleth unigolion mewn ffyrdd sy'n mynd i'r afael â'r achosion yn ogystal â'r symptomau.

## *CEFNOGI POBL*

**Y LLUOEDD ARFOG**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad trosfwaol i gefnogi cymuned y lluoedd arfog i sicrhau bod personél presennol, cyn-bersonél, a theuluoedd y Lluoedd Arfog yn gallu cael gafael ar wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion penodol ac yn cydnabod eu gwasanaeth dros eu gwlad.

Roedd y datblygiadau trosfwaol penodol yn 2011-12 yn cynnwys:

- Cyhoeddi Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

- Cadarnhau cyllid i gefnogi digwyddiadau Diwrnod y Lluoedd Arfog yng Ngogledd a De Cymru.

- Parhau i weithio ar faterion a godwyd gan y Grŵp Arbenigol ar anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru, gan gynnwys cynhadledd i annog Awdurdodau Lleol i ddefnyddio Cyfamod Cymunedol y Weinyddiaeth Amddiffyn.

## CYMUNEDAU MWY DIOGEL I BAWB

**GOSTWNG AC ATAL TROSEDDAU IEUENCTID**

*Ymrwymiad i ymgynghori ar Fil Atal Troseddau Ieuenctid*

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymchwilio i ffyrdd amgen o gryfhau ei phwerau presennol yn y meysydd datganoledig er mwyn dylanwadu ar y ffordd y darperir gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru.

Mae swyddogion wrthi'n ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn ymgynghori ar gynigion i geisio:

- Lleihau'r nifer o blant a phobl ifanc sy'n mentro i'r system cyfiawnder ieuenctid drwy wella'r cymorth gan wasanaethau datganoledig i'w gwyro oddi wrth y system cyn mynd i'r llys.
- Gwella'r cymorth gan wasanaethau datganoledig ar gyfer plant a phobl ifanc o fewn y system cyfiawnder ieuenctid.
- Cryfhau atebolrwydd a chydweithredu partneriaethau lleol a rhanbarthol o ran eu cymorth i bobl ifanc tra eu bod yn y system cyfiawnder ieuenctid.

- Darparu gwell gwasanaethau cymorth, ôl-ofal ac ailintegreiddio ar gyfer plant a phobl ifanc yn dilyn dedfryd gymunedol neu garcharol.

*Ymrwymiad i barhau i gynnig Cyllid Cymunedau Diogelach i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol Cymru*

Rhoes y Gronfa Cymunedau Diogelach £4.5m i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn 2011/12 i'w galluogi i gynnal prosiectau a mentrau Cyfiawnder Ieuenctid lleol er mwyn atal a

lleihau troseddu ac aildroseddu ymhlith pobl ifanc. Mae meini prawf y grant yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i sicrhau bod prosiectau'n cyflawni'r canlyniadau a amlinellwyd yn y cynigion uchod a bod y gronfa'n cael ei dosbarthu yn unol â ffiniau'r ôl troed rhanbarthol yn 2013-14.

**GOSTWNG NIFER Y TROSEDDAU AC OFN TROSEDDU**

Cyflogi 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Mae ariannu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yn un o ymrwymiadau 'Pump am Ddyfodol Tecach' Llywodraeth Cymru yn ein Rhaglen Lywodraethu. Mae hyn yn cael ei weithredu mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru ac Awdurdodau Heddlu Cymru. Mae bwrdd prosiect yn goruchwylio'r gwaith, dan gadeiryddiaeth Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol. Mae'r bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru, Awdurdodau Heddlu Cymru, Cymunedau yn Gyntaf, Llywodraeth Leol a Thrafnidiaeth, ynghyd â swyddogion Ymchwil Gymdeithasol.

Mae'r bwrdd prosiect wedi gwneud cryn gynnydd, gan gynnwys cytuno ar y brandio a'r Telerau a'r Amodau. Mae pwysigrwydd ychwanegedd wedi'i bwysleisio drwy'r bwrdd prosiect ac mae heddluoedd wedi darparu amcanestyniadau cyfredol o'u staff tan 2013/14. Rhydd hyn ddarlun llawnach o'r nifer graidd o staff sydd gan yr heddluoedd unigol a gellir defnyddio hyn yn sylfaen i fesur ychwanegedd y Swyddogion Cymorth Cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n anodd rhagweld y tu hwnt i 2013/14 ar hyn o bryd am fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn mynd i gael eu hethol yn Nhachwedd 2012.

Mae cynnig i werthuso effaith y Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol wedi'i gytuno gan y Bwrdd Prosiect ac mae manyleb fanwl yn cael ei pharatoi.

Mae'r wedd derfynol wedi'i rhoi ar y trefniadau ariannu ac mae Swyddogion Cymorth Cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru eisoes yn cael eu hyfforddi yn 3 o'r 4 heddlu yng Nghymru. Bydd y pedwerydd yn dechrau hyfforddi ym mis Mawrth a Heddlu Trafnidiaeth Prydain ym mis Mai. Mae'r rhai cyntaf i gael eu recriwtio eisoes wedi dechrau gweithio yng Ngwent ac yn Nyfed Powys.

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau

Daeth Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol i rym yn Nhachwedd 2011. Bydd yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn cael eu cynnal yn Nhachwedd 2012. Mae'r Swyddfa Gartref wedi dweud eu bod am weld Panelau Heddlu a Throseddau'n cael eu sefydlu erbyn Gorffennaf 2012, er eu bod yn deall y gallai fod angen ailystyried hynny yng ngoleuni'r etholiadau Llywodraeth Leol ar 3 Mai 2012. Rwyf wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol yng Nghymru i'w hannog i wneud enwebiadau priodol i Banelau Heddlu a Throseddau.

**LLEIHAU'R NIWED SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU**

*Rhaglen Adolygu Camddefnyddio Sylweddau*

Mae Rhaglen Adolygu Camddefnyddio Sylweddau wedi'i sefydlu i adolygu'r hyn a gyflawnwyd ym maes camddefnyddio sylweddau dros y tair blynedd diwethaf o dan y Strategaeth bresennol ac i benderfynu a gafodd y cyflawniadau eu sicrhau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon. Mae'r adolygiad yn craffu ar y strwythurau llywodraethu cenedlaethol a'r mecanweithiau darparu lleol yn ogystal ag ar y modelau ariannu cysylltiedig. Mae ymchwil wedi'i chomisiynu hefyd i ddarparu sylfaen o dystiolaeth a data. Mae pum rhan i'r adolygiad:

- Adolygiad o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol
- Adolygiad o'r Fformiwla Ariannu

- Adolygiad o'r Byrddau Cynllunio Ardal
- Gwerthusiad o'r Strategaeth (gan gynnwys Dadansoddiad Cost a Budd)
- Ffrwd Waith Datblygu Sefydliadol

Bydd canfyddiadau'r Rhaglen Adolygu Camddefnyddio Sylweddau yn nodi'r cyfleoedd i resymoli a symleiddio partneriaethau er mwyn sicrhau bod y mecanweithiau darparu yn addas i'w diben ac yn gallu cydweithio a chydlynu'n rhanbarthol. Bydd hefyd yn nodi argymhellion ar gyfer model ariannu mwy tryloyw a syml a fydd yn annog penderfyniadau sy'n strategol yn rhanbarthol ac yn gwneud cyllidebau cyfun yn bosibl.

*Cynllun Gweithredu newydd ar Gamddefnyddio Sylweddau ar gyfer y tair blynedd 2012-2015*

Mae digwyddiadau ymgynghori yn cael eu cynnal ar hyn o bryd o amgylch Cymru i ofyn i randdeiliaid camddefnyddio sylweddau pa faterion allweddol yn ymwneud â chamddefyddio sylweddau y dylid eu blaenoriaethu dros y tair blynedd nesaf yn genedlaethol ac yn lleol.

*Cyllid Camddefnyddio Sylweddau 2012-13*

Mae'r Cyllid Refeniw Camddefnyddio Sylweddau i Fyrddau Cynllunio Ardal/Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2012-13 ar yr un lefel ag o'r blaen, sef £22.63m. Mae'r cyllid cyfalaf camddefnyddio sylweddau wedi gostwng o £6.1m i £5.69m.

## GOSTWNG Y CYFRADDAU CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS YN ERBYN MENYWOD

*Parhau i herio agweddau hen ffasiwn at fenywod drwy ddatblygu "Yr Hawl i Fod yn Ddiogel", ein Strategaeth ar Drais yn erbyn Menywod, a Strategaeth "Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig: Dull Partneriaeth".*

Mae'r cynllun gweithredu 'Hawl i fod yn Ddiogel' yn heriol ac yn cynnwys 89 o gamau gweithredu. Erbyn Mawrth 2011, roedd 41 o'r camau wedi'u cyflawni a rhoddwyd y gorau i geisio cyflawni un cam pan ddiddymodd Llywodraeth y DU Weithgor Trawslywodraethol Rhyngweinidogol y DU. Mae gwaith wedi cychwyn ar 40 cam arall ac mae rhai yn symud yn eu blaen yn gynt nag eraill. Bydd pum cam a oedd i fod i gael eu cyflawni yn ystod 2010-11 yn cael eu datblygu yn y flwyddyn i ddod.

*Y Bil arfaethedig ynghylch Cam-drin Domestig a Thrais yn erbyn Menywod*

Bydd y Bil yn ategu bwriad y Llywodraeth i sicrhau bod cyrff cyhoeddus perthnasol yn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig mewn ffordd gydgysylltiedig a chydlynol gan roi sylw penodol i agweddau ataliol, amddiffynnol a chefnogol.

*Prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach*

Sefydlwyd y prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach (cam-drin domestig) er mwyn gweithredu'r hyn a ddysgwyd o'r 3 phrosiect a arweiniwyd gan Frigâd Kafka yn Ne Cymru – ac o'r prosiect 1,000 o fywydau yn y GIG. Mae'r prosiect yn ceisio gwella'r gwasanaeth amlasiantaethol a ddarperir ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig mewn achosion risg arferol a chanolig. Rhwng canol Tachwedd 2011 a chanol Ionawr 2012, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o weithdai rhanbarthol ledled Cymru gan gynnwys ystod o bartneriaid o lywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol, a'r trydydd sector. Mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg – pwysigrwydd arweinyddiaeth dda; rhannu gwybodaeth yn effeithiol; gwell hyfforddiant amlasiantaethol; atal (gyda phwyslais ar addysg); a darparu gwasanaeth o safon gyson uchel; yn cael sylw manwl gan swyddogion.

*Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl*

Yn Ebrill 2011, penodwyd cydgysylltydd cyntaf Cymru ar Atal Masnachu mewn Pobl, i gydgysylltu'r cymorth gorau posibl ar gyfer dioddefwyr y fasnach fewnol ac allanol mewn pobl ac i wneud Cymru'n lle anghyfeillgar i fasnachwyr mewn pobl. Mae'r penodiad hefyd yn sicrhau parhad yr arferion da ers lansio'r strategaeth "Hawl i fod yn Ddiogel", ac yn helpu i sicrhau

ymateb cydgysylltiedig ac un pwynt cyswllt ar gyfer yr holl asiantaethau perthnasol ledled Cymru. Gan mai dyma'r penodiad cyntaf o'i fath yn y DU, rydym wedi cael cyfle i arwain y ffordd o ran delio â masnachu mewn pobl. Mae'r cydgysylltydd wedi cyflawni nifer o bethau yn ei flwyddyn gyntaf, gan gynnwys cydweithio'n agos ag Asiantaethau Masnachu mewn Pobl y DU ac ymweld yn bersonol â thros 80 o sefydliadau ledled Cymru a'r DU i gael darlun mwy cynhwysfawr o'r sefyllfa yng Nghymru a'r DU. Mae Cymru bellach yn gadarn ar y map o ran delio â'r mater tra chymhleth a chudd hwn. Mae'n bwysig i ni beidio â cholli momentwm ac i ni adeiladu ar y cyflawniad hwn.

## MYND I'R AFAEL Â THLODI

### CYNLLUN GWEITHREDU TRECHU TLODI

Roedd y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Cabinet ar 7 Mawrth yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn dal yn benderfynol o leihau tlodi ac o liniaru cymaint â phosibl effeithiau Rhaglen Diwygio Lles Llywodraeth y DU. Bydd y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi yn crynhoi'r ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru a'n partneriaid cymdeithasol i helpu cymunedau ac unigolion allan o dlodi. Yn benodol, bydd y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi yn amlinellu cyfraniad pob rhan o Lywodraeth Cymru at drechu tlodi, ond yn cadw pwyslais cryf ar dlodi plant. Bydd y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi yn seiliedig ar y themâu canlynol: atal tlodi, helpu pobl i godi'u hunain allan o dlodi drwy ddileu rhwystrau i gyflogaeth, a gweithredu i wella ansawdd bywyd y rhai sy'n byw mewn tlodi. Yn hanfodol, bydd y Cynllun Gweithredu yn darparu diweddariadau rheolaidd ac yn cynnwys canlyniadau mesuradwy – i ddangos y cynnydd a wneir o ran gweithredu'r Strategaeth Tlodi Plant.

Bydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ynghyd â'n Strategaeth Cynhwysiant Ariannol "Mae Pawb yn Cyfrif", yn canolbwyntio ar drechu tlodi mewn cymunedau. Mae'r ddwy fenter hyn yn rhannau allweddol o ymdrechion Llywodraeth Cymru i drechu tlodi.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi £4.056m dros y tair blynedd a ddaw i ben ym Medi 2013 i helpu Undebau Credyd Cymru i gynnig cynhyrchion ariannol i bobl a fyddai fel arall wedi'u hallgáu yn ariannol. Mae gweithio mewn partneriaeth ag Undebau Credyd i gynnig dewis fforddiadwy yn lle cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog neu fenthycwyr stepen y drws costus eraill yn dal yn amcan allweddol i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn cynnwys ymrwymiad i gynorthwyo darparwyr cyngor y Trydydd Sector er mwyn helpu pobl â phroblemau dyled a helpu pobl i reoli eu harian. Mae gwella mynediad at wasanaethau cynghori a ddarperir yn gyson ac yn gyffredinol ledled Cymru yn hanfodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol a ninnau'n disgwyl y newidiadau i'r trefniadau lles a budd-daliadau sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU.

### DYFODOL CYMUNEDAU YN GYNTAF

O 1 Ebrill 2012 bydd Cymunedau yn Gyntaf yn Rhaglen a fydd yn Canolbwyntio ar Drechu Tlodi mewn Cymunedau. Bydd yn rhaglen newydd ar lawer ystyr ond bydd yn adeiladu ar gyflawniadau Cymunedau yn Gyntaf ac yn parhau â llawer o'r gwaith da sydd ar y gweill mewn cymunedau lleol.

Bydd ffocws daearyddol y rhaglen yn parhau, a bydd yn canolbwyntio ar y 10% o gymunedau mwyaf amddifad Cymru, fel y'u diffiniwyd gan MALIC 2011, ond bydd pwyslais cynyddol ar sicrhau bod yr unigolion, y teuluoedd a'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn y cymunedau hynny yn cael eu cynorthwyo. Bydd Cymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio ar drechu tlodi ac yn rhoi pwyslais penodol ar y tri chanlyniad strategol: cymunedau iachach; cymunedau dysgu; a chymunedau ffyniannus. Bydd cyllid grant ar gyfer y rhaglen yn cael ei ddyrannu i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf a bydd Fframwaith Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf, sydd wedi'i seilio

ar y model Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau, yn darparu strwythur i amlygu'r cyflawniadau yn erbyn y cyllid grant.

Bydd gwaith partneriaeth rhwng cymunedau a darparwyr gwasanaethau allweddol gan gynnwys y sector gwirfoddol a'r sector preifat yn cael ei gynorthwyo a'i hybu yn y rhaglen newydd.

**GOBLYGIADAU DIWYGIADAU LLES LLYWODRAETH Y DU**

*Dull amgenach o ymdrin â Budd-dal y Dreth Gyngor*

Yn rhan o'r diwygiadau lles ehangach, mae Llywodraeth y DU yn diddymu Budd-dal y Dreth Gyngor ac o Ebrill 2013 Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am ddarparu cymorth gyda'r dreth gyngor yng Nghymru. Yn ogystal â lleoleiddio'r cymorth bydd toriad o 10% yn y gwariant ar Fudd-dal y Dreth Gyngor. Bydd y cyllid hefyd yn symud i Derfynau Gwariant Adrannol, ac felly bydd yn rhaid i amrywiadau yn y galw gael eu rheoli o fewn cyllidebau sefydlog.

Rydym wedi dweud wrth Lywodraeth y DU ein bod yn poeni'n fawr am y cyfyngiadau amser a'r cyfyngiadau cyfreithiol ac ariannol sy'n gysylltiedig â gorfodi'r newidiadau hyn. Er gwaethaf yr amheuon, mae Llywodraeth y DU wedi dweud yn glir ei bod yn mynd i barhau â'i chynlluniau i ddiddymu budd-dal y dreth gyngor ac i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu cymorth gyda'r dreth gyngor yng Nghymru i Lywodraeth Cymru.

O ganlyniad mae paratoadau manwl ar y gweill i ddatblygu system i ddarparu cymorth gyda'r dreth gyngor a fydd yn gweddu orau i anghenion pobl Cymru, ac i sicrhau na fydd rhai o'n pobl fwyaf agored i niwed yn dioddef caledi ariannol difrifol. I helpu i ddatblygu cynllun newydd, cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar 6 Chwefror.

*Y Gronfa Gymdeithasol*

Diddymwyd y Gronfa Gymdeithasol ddewisol hefyd gan y Ddeddf Diwygio Lles, a bydd rhannau ohoni (benthyciadau argyfwng ar gyfer treuliau byw a grantiau gofal cymunedol) yn cael eu disodli gan ddarpariaethau lleol newydd. O Ebrill 2013 bydd cyllid ar gyfer y Gronfa Gymdeithasol yn cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru, i Lywodraeth yr Alban ac i awdurdodau lleol yn Lloegr.

Mae Llywodraeth y DU yn cynnig datganoli cyllid ar lefel y gwariant a gofnodir ar gyfer 2012-13. Mae wedi dweud yn glir ei bod yn bwriadu gostwng y gwariant i lefelau 2005 erbyn y dyddiad hwnnw ac mae wedi cyflwyno mesurau i leihau'r galw a'r gwariant. Amcangyfrifir, ar sail gwariant 2005, y byddai £9.28 miliwn yn cael ei ddatganoli, gostyngiad o ryw 24% ar lefelau 2010.

Am na ellir parhau i weinyddu'r cynllun drwy'r 64 o swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith, mae angen dod o hyd i ffordd arall o'i ddarparu. Gallai'r opsiynau gynnwys ei ddarparu drwy awdurdodau lleol, drwy fudiadau'r trydydd sector neu drwy ryw gyfuniad o'r rhain. Gallai gynnwys rhoi buddion mewn nwyddau, ee dodrefn ail-law wedi'u hailwampio, swmpbrynu nwyddau gwyn neu ddefnyddio banciau bwyd.

Mae'r galw am unrhyw gynllun olynol yn debyg o gynyddu o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol a'r gostyngiadau mewn budd-daliadau eraill, gan gynnwys y budd-dal tai a budd-dal y Dreth Gyngor. Gallai hynny roi gwir bwysau ar y gyllideb a ddatganolir gan Lywodraeth y DU.

*Adolygiad o Wasanaethau Cynghori*

Rwyf wedi gofyn i swyddogion gychwyn adolygiad llawn o wasanaethau cynghori yng ngoleuni'r heriau eithriadol sy'n wynebu darparwyr di-elw o ganlyniad i gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Diwygio Lles a Chymorth Cyfreithiol, ac effaith y gostyngiadau yn y cyllid ar gyfer cyngor drwy'r Gronfa Cynhwysiant Ariannol a'r Llinell Gymorth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Bydd yr adolygiad yn ymchwilio i ffyrdd o ddatblygu rhwydwaith cryfach o wasanaethau cynghori sy’n gallu rhoi cymorth gyda phob math o anghenion yn ymwneud ag arian a thai.

Mae cwmpas yr adolygiad yn cael ei ddatblygu, ond rhagwelwn y bydd yn edrych ar yr holl wasanaethau cynghori ar draws portffolios Llywodraeth Cymru.

Nid yw cwmpas yr adolygiad wedi’i bennu’n derfynol eto ond, yn fras, bydd yn:

- ymchwilio i ffyrdd o ddatblygu rhwydwaith cryfach o wasanaethau cynghori generig:
    - sy’n gwella ansawdd y gwasanaeth i’r defnyddiwr;
    - sy’n gallu rhoi cymorth gyda phob math o anghenion yn ymwneud ag arian, tai a materion cysylltiedig eraill; ac
    - sy’n gallu helpu pobl â nodweddion gwarchodedig i ddeall ac arfer eu hawliau ac i wneud dewisiadau cytbwys.
- nodi effaith y toriadau yng nghyllid Llywodraeth y DU a llywodraeth leol
- asesu’r galw am wasanaethau cynghori dros y 5 mlynedd nesaf
- nodi’r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio cronfeydd i gefnogi rhwydwaith cynghori yng Nghymru.

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Tai, Adfywio a Threftadaeth**

**Portffolio**

1. Yn rhinwedd fy swydd fel Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros bortffolio sy’n dod â thai, treftadaeth ac adfywio ynghyd, rwyf yn cael cyfle i ddatblygu strategaethau newydd integredig a chynhwysol a fydd yn chwarae rhan ganolog yn y camau ehangach y mae angen eu cymryd i sicrhau economi fwy ffyniannus, gwell lleoedd i bobl fyw ynddynt, a dyfodol tecach.

2. Mae'n amlwg bod gan y tri maes polisi hyn gyfraniad sylweddol i'w wneud i'r ddwy thema allweddol - gwella cynaliadwyedd a gwella lles - sy'n rhan gwbl greiddiol o'n Rhaglen Lywodraethu.

**Y Rhaglen Lywodraethu**

3. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu'r camau penodol yr ydym yn eu cymryd. Mae hefyd yn nodi'n glir sut y byddwn yn mynd ati i bwyso a mesur a ydym ar y trywydd iawn, a sut y byddwn yn asesu'r cynnydd a wnawn wrth fynd i'r afael â'r heriau hirdymor sy'n wynebu Cymru.

4. Mae gennyf atebolrwydd penodol am sicrhau ein bod ar y trywydd iawn mewn nifer o'r meysydd sydd yn y rhaglen honno - yn fwyaf arbennig y penodau sy'n ymdrin â Chartrefi Cymru(6), Mynd i’r Afael â Thlodi (9) a Diwylliant a Threftadaeth Cymru (12).

5. Fodd bynnag, mae'r rhaglen hon yn un sydd am weld cydweithrediad ar draws adrannau'r Llywodraeth. Rydym am weld pawb ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cydnabod yr agenda hon ac yn mynd ati mewn partneriaeth â ni i'w symud yn ei blaen.

**Blaenoriaethau**

6. Er nad oes modd ymdrin â'r holl agweddau ar fy mhortffolio yn y papur hwn, rwyf wedi mynd ati isod i fanylu ychydig mwy ar rai o'r blaenoriaethau sydd gennyf ac ar rai o'r gweithgareddau a'r sefydliadau y mae fy Adran yn eu noddi a'u hariannu - gan sicrhau bod cynaliadwyedd yn ganolog i'r agenda a chan ddiffinio'r llwybr datblygu ar gyfer y tymor hir.

***Tai***

7. Rwyf wedi gwneud ymrwymiad clir a chyhoeddus i roi mwy o flaenoriaeth i faterion tai yn y blynyddoedd sydd i ddod.

8. Mae tai yn rhan annatod o’n hymrwymiad i fynd i’r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Nid dim ond darparu cartrefi newydd a gwella cartrefi sy’n bodoli eisoes sydd ar yr agenda hollbwysig hon. Mae helpu pobl i fyw bywydau annibynnol cyhyd ag y bo modd yn rhan ohoni hefyd, yn ogystal

â lleihau’r galw am wasanaethau’r GIG ac am wasanaethau gofal cymdeithasol.

9. Mae buddsoddi mewn tai yn cyfrannu at yr economi hefyd, yn genedlaethol ac yn lleol, mae’n cefnogi busnesau bach a mawr yn y sector adeiladu, ac mae’n creu swyddi a chyfleoedd hyfforddiant.

10. Mae’n pwerau newydd yn rhoi cyfle i ni wneud hyd yn oed mwy i newid pethau er gwell.

11. Ym mis Medi (2011), cyhoeddais ‘Cwrdd â'r Her Tai: Creu consensws ar gyfer gweithredu’ gan wahodd pobl i fynegi barn am faterion yn ymwneud â thai er mwyn ein helpu i baratoi Bil Tai newydd. Roeddwn yn falch o weld bod dros 80 o ymatebion wedi dod i law, ac mae'r gwaith o'u dadansoddi yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

http://wales.gov.uk/consultations/housingcommunity/housingchallenge/?skip=1&lang=cy

12. Byddaf yn parhau â'r gwaith hwn drwy gyhoeddi Papur Gwyn yn y gwanwyn. Bydd y papur hwnnw'n amlinellu'r cynlluniau a'r blaenoriaethau sydd gennyf am weddill y tymor, gan adlewyrchu'r ymrwymiadau a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu, ond bydd hefyd yn ystyried yr ymatebion i fy mhapur i.

13. Bydd angen atebion deddfwriaethol er mwyn gwireddu rhai o'r ymrwymiadau hyn, a bydd y Bil Tai yn fodd i roi'r atebion hynny ar waith: rwyf wedi dweud eisoes mai'r prif flaenoriaethau yw mynd i'r afael â digartrefedd a gwella safonau yn y sector rhentu preifat.

14. Fod bynnag, rhan yn unig yw hyn o'r ymrwymiad yr ydym wedi'i wneud. Byddaf yn gweithredu i wella'r ffordd y mae'r system dai yn gweithio yn gyffredinol - gan amrywio o'r Gronfa Troi Tai'n Gartrefi (menter gwerth £5 miliwn i fynd i'r afael â chartrefi gwag) i gefnogi amryfal gamau y bwriedir eu cymryd i liniaru ac i fonitro effeithiau'r cynigion sydd gan Lywodraeth y DU i Ddiwygio Lles - cynigion sy'n cael effaith sylweddol yng Nghymru eisoes.

***Adolygiad o'r Polisi Adfywio***

15. Cyhoeddais ar 21 Chwefror y byddai adolygiad yn cael ei gynnal o bolisi adfywio yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn ystyried ein polisïau presennol, yn arbennig felly y polisi o greu Ardaloedd Adfywio, yn ogystal ag ystyried i ba gyfeiriad y dylai gwaith adfywio fynd yn y dyfodol. Yn ogystal â pharhau gyda'r gwaith o wireddu'r ymrwymiadau a wnaed hyd yma, mae angen i ni feddwl yn ofalus am y dyfodol.

16. Mae adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes am Adfywio Canol Trefi wedi dangos yn gwbl glir i mi bod y ffordd yr ydym yn byw, a sut a lle'r ydym yn gwneud ein siopa, wedi newid. Bydd yr Adolygiad hefyd yn llywio'r ffordd

yr ydym yn mynd ati i wireddu'r ymrwymiadau a wnaed yn ein maniffesto mewn perthynas â chanol trefi a threfi glan môr.

17. Fel Cabinet, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gweithgarwch ym maes adfywio yn cael ei gydgysylltu ar draws ein holl bortffolios. Bydd integreiddio ar lefel ddyfnach ac ehangach yn ein helpu i sicrhau gwell gwerth am arian a gwell canlyniadau.

18. Yn benodol rwyf yn cydweithio'n agos â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar yr agenda gwrthdlodi o dan y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf. Rwyf yn edrych hefyd ar y cysylltiadau rhwng fy mhortffolio i a'r Ardaloedd Menter newydd a'r gwaith y mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn ei wneud ar Ddinas-ranbarthau.

19. Byddaf yn canolbwyntio'n benodol hefyd ar ddatblygu'r Rhaglen Ewropeaidd yng Nghymru ar gyfer 2014-2020. Rwyf yn awyddus i weld rhaglenni'r dyfodol yn canolbwyntio ar ymyriadau a fydd yn mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad na fydd gweithgareddau datblygu economaidd a gwrthdlodi y brif ffrwd o reidrwydd yn mynd i'r afael â hwy.

20. Mae'n fwriad gennyf fynd ati yn gynnar yn 2013, ar ôl yr adolygiad, i amlinellu fy mlaenoriaethau ym maes adfywio.

***Y Bil Treftadaeth***

21. Rwyf wedi ymrwymo i geisio cyflwyno Bil Treftadaeth yn ystod sesiwn 2014-15. Cadw sy'n arwain ar y Bil hwn ac mae wrthi'n cynnal ymarfer cwmpasu eang a fydd yn sail i bolisïau a strategaethau yn y dyfodol, gan gynnwys y Bil arfaethedig.

22. Y bwriad yw cynnal trafodaeth eang drwy gyfrwng gweithdai, seminarau, a chynhadledd gyhoeddus; a chynnal ymchwil, gan gysylltu â chynifer o unigolion a chyrff ag y bo modd yn y sector, yn ogystal â gwyntyllu'r materion yn y fforymau arferol sydd gan y sector.

23. Euthum ati yn ddiweddar i amlinellu'r blaenoriaethau sydd gennyf ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru (24 Ionawr):
http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/historic/cadw/priorities/?skip=1&lang=cy

24. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r blaenoriaethau i Cadw, ac i'r gweithgareddau a'r sefydliadau y mae'n eu noddi ac yn eu hariannu, dros y pedair blynedd nesaf. Mae deg maes yn cael blaenoriaeth, gan gynnwys yr angen i sicrhau bod safleoedd treftadaeth yn fannau hygyrch i ymwelwyr â Chymru ac i bobl sy'n byw yma yng Nghymru ymweld â hwy; gwneud y gorau o gydweithio â phartneriaid a sicrhau'r partneriaethau gorau; datblygu cynulleidfaoedd newydd ac ehangach a chysylltu â phobl; hybu dysgu, datblygu sgiliau, a chreu swyddi; sicrhau bod asedau hanesyddol yn cael eu diogelu; ac yn bwysig iawn, cefnogi'r gwaith y mae'r trydydd sector yn y ei wneud ym maes yr amgylchedd hanesyddol

25. Rwyf am symbylu trafodaeth, syniadau a safbwyntiau newydd, i helpu Cadw i ddatblygu dulliau o weithredu sydd wir yn gweithio dros Gymru. Bydd y gweithdai ymgynghori a gynhelir yn ystod chwe mias cyntaf eleni yn helpu i fireinio'r cynigion ar gyfer y Bil Treftadaeth a rhaglen waith Cadw, gyda golwg ar gyhoeddi fy Strategaeth ar gyfer yr Amgylchedd hanesyddol yn ystod hydref 2012.

***Y Celfyddydau***

26. Rwyf yn croesawu bwriad y Pwyllgor hwn i edrych ar gyfranogiad yn y celfyddydau, yn enwedig y posibiliadau o ran dod o hyd i ffynonellau newydd o gyllid yn yr hinsawdd anodd sydd ohoni.

27. Rwyf wedi nodi fy mlaenoriaethau ar gyfer y celfyddydau yn fy llythyr cylch gwaith blynyddol at Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC):
http://new.wales.gov.uk/topics/cultureandsport/publications/acremitletter/?skip=1&lang=cy

28. Yn benodol, rwyf am barhau i fwrw ymlaen â'r argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Hygyrchedd y Celfyddydau a Diwylliant, ac i barhau i fod yn rhan o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

29. Rwyf yr un mor frwdfrydig ynglŷn â darparu profiadau o ansawdd uchel ym maes y celfyddydau i blant a phobl ifanc, felly rwyf yn hynod falch bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau yn mynd ati gyda'n gilydd i gomisiynu adolygiad o'r gefnogaeth a roddir i'r celfyddydau mewn ysgolion.

30. Mae CCC wedi mynd ati eisoes i roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant - mae'r cynllun hwnnw'n ategu'r strategaeth 'Creawdwyr Ifainc' ar gyfer pobl ifanc a'r celfyddydau. Rydym yn siarad yn aml am y manteision a ddaw i ran unigolion wrth gymryd rhan yn y celfyddydau, ond gall y manteision hynny fod yn rhai ehangach o lawer, gan helpu gyda'r gwaith o adfywio'n cymunedau yn gymdeithasol ac yn ffisegol.

31. Rwyf hefyd am dynnu'ch sylw at ein rhaglen ar gyfer yr Olympiad Diwylliannol, pan fydd gweithgareddau'n cael eu cynnal ledled Cymru, nifer ohonynt wedi'u hanelu at ein pobl ifanc.

***Diwylliant***

32. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu swm o dros £12 miliwn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru a swm o dros £24 miliwn i Amgueddfa Cymru yn 2012/13. Mae'r ddau yn Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi ymrwymo hefyd i barhau i gynnig mynediad am ddim i'r Llyfrgell ac i'r saith safle sydd gan yr Amgueddfa.

33. Mae gwaith y naill sefydliad a'r llall yn cyfrannu at nifer o'r meysydd allweddol a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys twf a swyddi cynaliadwy, gwasanaethau cyhoeddus, addysg, a diwylliant a threftadaeth Cymru.

34. Ym mis Tachwedd 2011, lansiwyd 'Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli'. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cynlluniau sydd gennym i weithio mewn partneriaeth â'r sector llyfrgelloedd yng Nghymru. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus ac addysgol, a llyfrgelloedd yn y gweithle, wrth galon eu cymunedau. Maent yn bodoli er mwyn ysbrydoli pobl a'u helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau. Mae'r strategaeth hon yn disgrifio sut y byddwn yn cynnal ac yn datblygu gwasanaethau newydd ac arloesol er mwyn diwallu anghenion pobl Cymru dros y 5 mlynedd nesaf.
http://new.wales.gov.uk/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/libraries/librariesinspire/?skip=1&lang=cy

35. Lansiwyd Strategaeth Amgueddfeydd Cymru ym mis Mehefin 2010. Rwyf wedi cael fy nghalonogi gan y modd y mae amgueddfeydd ledled Cymru wedi ymroi i weithredu'r strategaeth ac, yn benodol, gan y gwaith sy'n cael ei wneud gan amgueddfeydd unigol i annog mwy o bobl i fanteisio ar eu cyfleusterau a'u gwasanaethau. Gan amrywio o ddatblygu mynedfeydd i'r anabl, i weithio gydag amrywiaeth eang o grwpiau i ddod â chasgliadau cenedlaethol at gynulleidfaoedd lleol, mae amgueddfeydd yn mynd ati'n egnïol i gyflwyno gwelliannau.
http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/museums/strategy/?skip=1&lang=cy

36. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol wedi cyhoeddi strategaethau drafft ar Dlodi Plant, sy'n anelu at wella cyfranogiad plant ym maes y celfyddydau. Mae ymgynghoriad yn cael ei chynnal ynghylch y strategaethau hyn ar hyn o bryd. Rwyf yn hynod falch o weld bod ein sefydliadau diwylliannol cenedlaethol wedi ymroi i'r agenda hon, ac mae hynny'n adlewyrchu'r gwaith ehangach y maent yn ei wneud i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael gwell cyfle i fanteisio ar ddiwylliant.

***Chwaraeon***

37. Gan mai fi sy'n bennaf gyfrifol yn Llywodraeth Cymru am hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol, rwyf yn awyddus i sicrhau ein bod yn cael gwerth am y buddsoddiad yr ydym yn ei wneud, a hynny o ran gwell iechyd a lles, gwell cydlyniant cymunedol a chymdeithasol, a'r manteision economaidd sy'n gysylltiedig â hynny.

38. Cyhoeddwyd llythyr cylch gwaith Chwaraeon Cymru fis diwethaf:
http://cymru.gov.uk/topics/cultureandsport/publications/sportwalesremit/?skip=1&lang=cy

39. Mae'r buddsoddiad yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn rhoi cyfleoedd i bobl o bob oed a gallu gymryd

rhan mewn gweithgareddau corfforol yn eu cymunedau. Mae Chwaraeon Cymru wrthi'n datblygu Strategaeth Chwaraeon Cymunedol a Strategaeth Tlodi Plant ar hyn o bryd, a'r bwriad yw targedu cymorth a buddsoddiad yn y dyfodol at y rheini sydd yn yr angen mwyaf.

40. Rwyf hefyd yn trafod gyda'r awdurdodau lleol, Chwaraeon Cymru, y Lleng Brydeinig Frenhinol a rhanddeiliaid eraill sut orau i ehangu'n cynllun Nofio am Ddim i gyn-filwyr ac i aelodau o'r Lluoedd Arfog yn ystod y cyfnodau pan nad ydynt ar ddyletswydd.

***Y Compact Llywodraeth Leol***

41. Yn olaf, rwyf yn benderfynol o oruchwylio rhaglen ddiwygio ar y cyd i wireddu'r ymrwymiadau yr wyf wedi'u gwneud yn y compact. Rwyf am sicrhau bod y gwasanaethau yr wyf yn gyfrifol amdanynt ar draws Cymru yn cael eu darparu'n fwy effeithiol drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. Ymhlith fy mlaenoriaethau y mae pennu amcanion ar y cyd ar gyfer datblygu gwasanaethau, strategaethau buddsoddi integredig, ffyrdd newydd o foderneiddio'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, a mentrau eraill megis gwerthuso ac ymchwil ar y cyd.

42. Mae'r trafodaethau a gynhaliwyd hyd yma wedi dangos bod Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn ymrwymedig i weithio gyda'i gilydd i sicrhau arbedion y gellir eu hailfuddsoddi yng ngwasanaethau'r rheng flaen ac mewn gwella gwasanaethau ledled Cymru.

**Huw Lewis AC**
**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth**

**Mawrth 2012**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon